student finance wales
cyllid myfyrwyr cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

PR1 Nodiadau

Myfyrwyr sy'n Parhau

Nodiadau i'ch helpu i lenwi'ch Cais am Gyllid Myfyrwyr 2009/10

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn bartneriaeth rhwng Awdurdodau Lleol (ALlau) a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC), sy'n darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Ni ddylech fod yn llenwi'r ffurflen PR1 os bydd unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol i chi:

- Rydych yn byw yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw fel arfer, ond rydych wedi symud i Gymru neu fe fyddwch yn symud i Gymru i ddilyn y cwrs hwn. Os mai dyma'ch sefyllfa, dylech gysylltu â'r sefydliad perthnasol o blith y canlynol:
  - Eich Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yn Lloegr
  - Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yn yr Alban (SAAS)
  - Eich Bwrdd Addysg a Llyfrgelloedd (ELB) lleol yng Ngogledd Iwerddon
  - Adran Addysg Guernsey neu Jersey
  - Adran Addysg Ynys Manaw
- Rydych yn astudio cwrs dysgu o bell am reswm nad yw'n ymwneud ag anabledd. Os mai dyma'ch sefyllfa, dylech lenwi ffurflen PTG1 i wneud cais am gyllid myfyrwyr. Bydd y ffurflen PTG1 ar gael o fis Awst 2009.
- Rydych yn ddinesydd un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd ac wedi symud i Gymru i fynychu cwrs Addysg Uwch. Os mai dyma'ch sefyllfa, dylech gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid yr UE yn: PO Box 89, Darlington, County Durham, DL1 9AZ. Ffôn: 0141 243 3570.
- Rydych yn mynychu neu fe fyddwch yn mynychu cwrs addysg uwch rhan-amser ac eithrio hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwch yn gymwys i gael help os ydych yn astudio cwrs rhan-amser. Am ragor o wybodaeth, dylech ffonio Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845.
- Byddwch yn cychwyn ar gwrs mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd ac yn cael bwrsariaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) neu'r Adran Iechyd (AI) na chaiff ei asesu yn ôl incwm eich cartref, ac eithrio'r fwrsariaeth gwaith cymdeithasol.

Rhaid i chi ddefnyddio'r nodiadau hyn pryd bynnag y byddwch yn gweld yr eicon hwn yn y brif ffurflen PR1. n

Amlinellir unrhyw dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu yn y nodiadau hyn hefyd, a defnyddir yr eicon hwn i ddynodi hyn. e

Pryd bynnag y byddwch yn gweld yr eicon tystiolaeth hwn yn y ffurflen PR1, dylech droi at y nodiadau hyn i gael gwybodaeth am y dystiolaeth y bydd angen ei darparu.

Adran 1 cyllid sydd ar gael

Benthyciad Ffioedd Dysgu

BYDD ANGEN EI AD-DALU

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Benthyciad Ffioedd Dysgu os oes gennych radd anrhydedd o'r DU yn barod.

Os ydych yn dilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon sy'n codi ffioedd dysgu hyblyg neu amrywiadwy hyd at uchafswm o £3,225, byddwch yn gallu gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu i dalu am y ffioedd hyn yn gyfan gwbl neu'n rhannol (gan ddibynnu ar y cyfanswm a godir a faint yr ydych yn dymuno'i fenthyca).

Os ydych yn dilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon nad yw'n codi ffioedd dysgu hyblyg neu amrywiadwy, gallai'r ffi dysgu a godir fod yn unrhyw swm hyd at uchafswm o £1,285 a bydd modd i chi wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu i dalu am hyn.

Os ydych yn dilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg yn yr Alban, gallwch wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu i dalu am y ffioedd dysgu y bydd eich prifysgol neu goleg yn eu codi arnoch, hyd at uchafswm o £3,225.

Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich cwrs cyn blwyddyn academaidd 2006/07 neu os oeddech yn fyfyriwr a wnaeth gymryd blwyddyn i ffwrdd cyn cychwyn ar eich cwrs yn ystod blwyddyn academaidd 2006/07, gallai'ch prifysgol neu goleg godi ffioedd dysgu o hyd at uchafswm o £1,285. Bydd modd i chi wneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu i dalu am hyn. Fodd bynnag, os ydych yn cael Grant ar gyfer Ffioedd Dysgu, bydd swm y Benthyciad Ffioedd Dysgu y bydd modd i chi wneud cais amdano, yn ddibynnol ar swm y Grant ar gyfer Ffioedd Dysgu yr ydych yn gymwys i'w gael.

Os ydych yn dilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg preifat, efallai y codir dros £3,225 arnoch am ffioedd dysgu ond os yw'ch cwrs yn un cymwys er mwyn hawlio cymorth i dalu ffioedd dysgu ar ei gyfer, dim ond Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at yr uchafswm, sef £3,225, y bydd modd i chi wneud cais amdano o hyd.

Bydd y Benthyciad Ffioedd Dysgu a fenthycwyd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r brifysgol neu'r coleg perthnasol ar ôl cadarnhau'ch presenoldeb.

Benthyciad Cynhaliaeth

BYDD ANGEN EI AD-DALU

Efallai na fyddwch yn gymwys i hawlio Benthyciad Cynhaliaeth os ydych yn meddu ar radd anrhydedd o'r DU eisoes, oni bai eich bod yn dilyn cwrs gradd galwedigaethol arbennig.

Os asesir eich bod yn gymwys i gael Grant Dysgu'r Cynulliad, efallai y bydd swm y Benthyciad Cynhaliaeth a fydd ar gael i chi yn cael ei ostwng.

Lwfans Dysgu i Rieni (PLA)

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Bydd y swm y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich incwm chi ac incwm eich dibynyddion (gan gynnwys eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner). Ni fydd yn cael ei ystyried gan Ganolfan Byd Gwaith neu adrannau budd-dal tai wrth iddynt gyfrifo'ch budd-daliadau eraill, felly nid oes yn rhaid i chi ddewis rhwng y Lwfans Dysgu i Rieni a budd-daliadau eraill.

Grant Oedolion Dibynnol (ADG)

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Mae'r grant hwn yn ddibynnol ar eich incwm ac unrhyw incwm eich dibynyddion. Rhaid i chi fod yn briod, mewn partneriaeth sifil, yn byw gyda phartner o'r naill ryw neu'r llall neu fod gennych oedolyn dibynnol arall er mwyn gwneud cais am y grant hwn. Dim ond am un oedolyn dibynnol y bydd modd i chi wneud cais am y grant hwn yn eu cylch; os oes gennych fwy nag un oedolyn dibynnol, dim ond un grant y byddwch yn ei gael.

Adran 1 cyllid sydd ar gael

Grant Costau Teithio

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Os oes yn rhaid i chi astudio mewn prifysgol neu goleg y tu allan i'r DU am y rhan fwyaf o unrhyw dymor yn ystod y flwyddyn academaidd neu os oes yn rhaid i chi fynychu lle yn y DU i ffwrdd o'ch prif brifysgol neu goleg fel rhan o'ch hyfforddiant meddygol neu ddeintyddol, efallai y byddwch yn gallu hawlio help i dalu'ch costau teithio. Efallai y byddwch yn gallu cael help i dalu am yswiriant meddygol, costau fisa a brechiadau hefyd. Bydd y cymorth y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich cartref.

Os oes yn rhaid i chi dalu costau teithio ychwanegol oherwydd eich bod yn anabl neu oherwydd bod gennych anhawster dysgu penodol, dylech wneud cais am Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yn lle'r grant hwn.

Byddwn yn anfon ffurflenni pellach atoch i'w llenwi ynghylch eich costau teithio.

Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Gall y rhain helpu i dalu'r costau ychwanegol sy'n codi ac sy'n ymwneud â'ch cwrs, o ganlyniad i'ch anabledd, eich cyflwr iechyd meddwl neu'ch anhawster dysgu penodol. Mae hyn yn cynnwys offer arbennig, cynorthwy-ydd anfeddygol neu drefniadau teithio arbennig.

e Os oes gennych anabledd corfforol neu gyflwr iechyd meddwl, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o'ch cyflwr megis llythyr gan eich meddyg neu arbenigwr priodol. Os oes gennych anhawster dysgu penodol (er enghraifft, dyslecsia), bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth o hyn ar ffurf asesiad diagnostig a gynhelir gan seicolegydd neu athro sy'n meddu ar gymwysterau addas, a bydd hyn yn ein helpu i brosesu'ch cais yn gynt. Os nad oes gennych y dystiolaeth hon eto, dylech anfon y ffurflen hon atom nawr, gan anfon y dystiolaeth ynghylch eich anabledd, eich cyflwr iechyd meddwl neu'ch anhawster dysgu penodol atom yn nes ymlaen. Byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am y wybodaeth ychwanegol y bydd ei hangen arnom.

e Os ydych yn astudio cwrs dysgu o bell neu fel arall yn astudio cwrs ond heb fod yn mynychu yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd, gallwch wneud cais am bob math o gyllid myfyrwyr (ac eithrio Grant Costau Teithio) yn yr un modd â phe byddech yn mynychu yn bersonol. Rhaid i'r dystiolaeth a gyflwynwch ddangos na allwch fynychu prifysgol neu goleg yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd.

Grant Gofal Plant

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Efallai y byddwch yn gallu cael help i dalu rhywfaint o'ch costau gofal plant, gan ddibynnu ar eich incwm ac unrhyw incwm eich dibynyddion, os oes gennych blant dibynnol dan 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd – neu dan 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig - ac mae angen i chi drefnu gwasanaethau gofal plant ar eu cyfer. Efallai y byddwch yn gallu cael help i dalu costau gofal plant yn ystod y gwyliau, yn ogystal ag yn ystod y tymor. Rhaid bod gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwyedig yn gofalu am eich plant er mwyn i chi hawlio'r grant hwn. Ni allwch gael y grant hwn os ydych chi neu'ch partner yn cael elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith; rhaid i chi ddewis un neu'r llall.

Grant Ffioedd Dysgu

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Bydd y grant hwn yn helpu i dalu'r gwahaniaeth rhwng y £1,285 a'r £3,225 y gallai'ch prifysgol neu goleg yng Nghymru, a ariannir gan arian cyhoeddus, ei godi arnoch os byddant yn codi ffioedd hyblyg. Bydd yn rhaid i chi dalu'r £1,285 cyntaf o unrhyw ffi cwrs a godir gan eich prifysgol neu goleg, ond gallwch dalu am hwn trwy gyfrwng Benthyciad Ffioedd Dysgu y bydd angen ei ad-dalu. Gweler y nodyn am y Benthyciad Ffioedd Dysgu am wybodaeth bellach.

Os ydych yn byw yng Nghymru fel arfer ac yn astudio mewn prifysgol neu goleg yng Nghymru a ariannir gan arian cyhoeddus, nad yw'n codi ffioedd hyblyg, ni fyddwch yn gymwys i gael y Grant Ffioedd Dysgu. Bydd yn rhaid i chi dalu ffi llawn y cwrs a godir, hyd at £1,285. Gallwch ddewis talu'r swm a godir trwy wneud cais am y Benthyciad Ffioedd Dysgu, y bydd angen ei ad-dalu. Gweler y nodyn am y Benthyciad Ffioedd Dysgu am wybodaeth bellach. Bydd y Grant Ffioedd Dysgu yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'r brifysgol neu'r coleg perthnasol ar ôl cadarnhau'ch presenoldeb

Adran 1 cyllid sydd ar gael

Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Rhaid i brifysgolion a cholegau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon gynnig bwrsariaeth orfodol i chi os asesir eich bod yn gymwys i gael Grant Dysgu'r Cynulliad llawn neu Grant Cymorth Arbennig llawn ac mae'r brifysgol neu'r coleg yn codi'r gyfradd uchaf o ran ffioedd amrywiadwy neu hyblyg.

Efallai y bydd rhai prifysgolion a cholegau yn dewis cynnig bwrsariaethau neu ysgoloriaethau dewisol. Nhw fyddai'n penderfynu ar y swm a fyddai'n cael ei gynnig, ac efallai na fydd angen i chi fod yn gymwys i hawlio Grant Dysgu'r Cynulliad llawn neu'r Grant Cymorth Arbennig llawn er mwyn bod yn gymwys ar gyfer eu cynllun bwrsariaethau neu ysgoloriaethau.

Grant Dysgu'r Cynulliad

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Ni fyddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu'r Cynulliad os ydych yn gymwys i gael Grant Cymorth Arbennig.

Bydd swm Grant Dysgu'r Cynulliad y byddwch yn ei gael yn effeithio ar swm y Benthyciad Cynhaliaeth y bydd gennych yr hawl i'w gael ac mae'n ddibynnol ar incwm eich cartref.

Os byddwch yn astudio cwrs Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (HCA) ôl-raddedig ac os byddwch yn dewis peidio darparu unrhyw wybodaeth ariannol, byddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu'r Cynulliad o £1,288 (£644 i fyfyrwyr HCA rhan-amser). Os byddwch yn dewis darparu gwybodaeth ariannol, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu'r Cynulliad o hyd at £2,906 (£1,453 i fyfyrwyr HCA rhan-amser).

Grant Cymorth Arbennig

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Os ydych yn gymwys i gael Grant Cymorth Arbennig, ni fyddwch yn gymwys i gael Grant Dysgu'r Cynulliad.

Efallai y byddwch yn gallu cael Grant Cymorth Arbennig:

- Os ydych yn unig riant.
- Os oes gennych bartner sy'n fyfyriwr hefyd ac mae un ohonoch neu'r ddau ohonoch yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc dan 20 oed sy'n cael addysg amser llawn nad yw'n Addysg ar lefel Uwch.
- Os oes gennych anabledd ac os ydych yn gymwys i gael y premiwm anabledd neu'r premiwm anabledd difrifol.
- Os ydych yn fyddar ac yn gymwys i gael Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl.
- Os ydych wedi cael eich trin fel unigolyn na all weithio am gyfnod parhaus o 28 wythnos o leiaf.
- Os oes gennych anabledd ac os ydych yn gymwys i gael y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm.
- Os ydych yn dod o wlad dramor ac yn gymwys i hawlio Taliad Achosion Brys Cymhorthdal Incwm oherwydd nad oes gennych arian, am y tro, am gyfnod o hyd at chwe wythnos.
- Os ydych yn aros i ddychwelyd i gwrs ar ôl cytuno ar gyfnod i ffwrdd o'r cwrs o ganlyniad i salwch neu gyfrifoldeb gofalu sydd bellach wedi dod i ben.
- Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn.

Ar ddarn o bapur ar wahân, dylech nodi pa rai o'r categorïau uchod sy'n berthnasol i chi yn eich barn chi, gan gynnwys hwn, a thystiolaeth gynorthwyol berthnasol, gyda'r ffurflen PR1.

Mae'r Grant Cymorth Arbennig yn talu hyd at £2,906, gan ddibynnu ar incwm eich cartref, a'i ddiben yw'ch helpu i dalu costau ychwanegol sy'n ymwneud â'ch cwrs megis llyfrau, offer, costau teithio neu ofal plant. Caiff eich hawl i hwn ei gyfrifo yn yr un modd â Grant Dysgu'r Cynulliad ond ni fydd yn effeithio ar gyfanswm y Benthyciad Cynhaliaeth y bydd gennych yr hawl i'w gael efallai. Ni fydd Canolfan Byd Gwaith neu adran Budd-dal Tai eich Awdurdod Lleol yn ystyried y Grant Cymorth Arbennig wrth asesu unrhyw gais y byddwch yn ei wneud am fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm.

Os ydych yn ansicr ynghylch a ydych yn gymwys i gael Grant Cymorth Arbennig, ffoniwch Ganolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru am help ar **0845 602 8845.**

Adran 1 cyllid sydd ar gael

Grant ar gyfer Ffioedd Dysgu

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Efallai na fyddwch yn gymwys i gael Grant ar gyfer Ffioedd Dysgu os oes gennych radd anrhydedd o'r DU yn barod, oni bai eich bod yn astudio cwrs gradd galwedigaethol penodol.

Os asesir bod yn rhaid i chi dalu cyfraniad at eich ffioedd dysgu, bydd modd i chi wneud cais am fenthyciad Ffioedd Dysgu i dalu'r cyfraniad hwn a aseswyd, hyd at uchafswm o £1,285.

Os ydych yn astudio ar gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon (HCA) amser llawn, efallai na chynhelir asesiad incwm ar gyfer y grant hwn, ac fe'i defnyddir i helpu i dalu am y ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg, hyd at uchafswm o £1,285.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat, NI fyddwch yn gymwys i gael Grant ar gyfer Ffioedd Dysgu, oni bai eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a gychwynnodd cyn Medi 2006 ac os felly, efallai y byddwch gymwys i gael Grant ar gyfer Ffioedd Dysgu, na chynhelir asesiad incwm ar ei gyfer.

Os byddwch yn gymwys i gael unrhyw swm dan y grant hwn, bydd yn cael ei dalu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg.

Grant Addysg Uwch (AU)

NI FYDD ANGEN EI AD-DALU

Mae Grant AU o hyd at £1,000 ar gael gan ddibynnu ar incwm eich cartref. Ni fydd yn cael ei gyfrif gan Ganolfan Byd Gwaith wrth gyfrifo'ch budd-daliadau eraill. Os ydych yn parhau i ddilyn cwrs mewn prifysgol neu goleg preifat a gychwynnodd cyn blwyddyn academaidd 2006/07 ac os mai dyma'ch cais cyntaf am gyllid myfyrwyr, efallai y byddwch yn gymwys i gael Grant AU.

Os ydych yn cael anhawster wrth ddewis pa fathau o gymorth ariannol yr ydych yn dymuno gwneud cais amdanynt o hyd, trowch at y ffynonellau canlynol am wybodaeth bellach:

- **Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn 2009/10**
- **Benthyciadau Myfyrwyr: Canllaw i delerau ac amodau**
- **Pontio'r Bwlch: Canllaw i'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) mewn addysg uwch 2009/10**
- **Grant Gofal Plant a chymorth arall i fyfyrwyr amser llawn mewn addysg uwch 2009/10 (ar gael ar ôl Mawrth 2009)**

Mae'r holl lyfrynnau hyn, yn ogystal â'r holl ffurflenni cais, ar gael ar-lein trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**.

Mae'r holl ffurflenni a llyfrynnau ar gael mewn ffurfiau eraill hefyd megis Braille, print mawr neu fel fersiwn sain. Os bydd angen copïau o unrhyw ffurflenni neu lyfrynnau arnoch yn un o'r ffurfiau amgen hyn, ffoniwch Ganolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0845 602 8845**.

Adran 2 manylion personol

Manylion cyswllt

b Os byddwch yn nodi cyfeiriad gohebu yn ystod y tymor, bydd yr holl ohebiaeth y byddwn yn ei hanfon yn cael ei hanfon i'r cyfeiriad hwnnw o'r dyddiad y byddwch yn symud yno.

Statws priodasol

c Rydych yn 'byw gyda phartner' os ydych yn rhannu cartref gyda'ch partner, ond nid ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil. Nid oes gwahaniaeth os ydych yn bâr o'r un rhyw neu beidio.

e Os byddwch dan 25 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac os ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, dylech anfon eich tystysgrif briodas neu'ch dogfennaeth partneriaeth sifil wreiddiol gyda'r cais. Bydd eich dogfen yn cael ei dychwelyd atoch.

e Os ydych wedi ysgaru neu wahanu, neu os ydych wedi bod mewn partneriaeth sifil sydd wedi cael ei diddymu, dylech anfon copi o'r archddyfarniad absoliwt, y gorchymyn diddymu, neu lythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws. Bydd unrhyw ddogfennau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd atoch.

e Os ydych yn ŵr gweddw neu'n wraig weddw neu os yw'ch partner sifil wedi marw, dylech anfon y dystysgrif farwolaeth wreiddiol.

Adran 3 am eich cwrs a'ch prifysgol neu goleg

Math o gwrs

b Os nad ydych yn siŵr beth fydd swm y ffioedd dysgu a godir, dylech gysylltu â'ch prifysgol neu goleg am gyngor.

Math o gwrs

c **Cwrs HCA rhan-amser (ac eithrio graddau cyntaf)**

Mae cwrs HCA israddedig rhan-amser yn gwrs gradd gyntaf. Os ydych yn gwneud cais am gymorth ar gyfer HCA rhan-amser, Tystysgrif Addysg (TystAdd) rhan-amser neu Ddiploma Addysgu rhan-amser yn y Sector Dysgu Gydol Oes (DTLLS) neu gwrs cyfatebol, ticiwch y blwch 'HCA Rhan-amser'.

Dysgu o bell amser llawn

e **e** Os ydych yn astudio cwrs dysgu o bell amser llawn am reswm sy'n ymwneud ag anabledd, rhaid i chi anfon tystiolaeth sy'n dangos yn eglur nad oes modd i chi fynychu prifysgol neu goleg yn bersonol am reswm sy'n ymwneud â'ch anabledd.

d A fyddech gystal ag anfon y llythyr swyddogol sy'n nodi y cynigir lle i chi, a ariannir gan y wladwriaeth, ar gwrs drama a dawns mewn sefydliad a ariannir yn breifat.

e

e Os ydych wedi gwneud cais, neu os byddwch yn gwneud cais, am fwrsariaeth gwaith cymdeithasol gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (NHSBSA), dylech ateb 'na' i'r cwestiwn hwn oherwydd bod hon yn fwrsariaeth ar wahân i'r rhai a gynigir gan y GIG neu'r AI.

e

Os ydych yn cael neu yn debygol o gael bwrsariaeth neu ddyfarniad wedi'i seilio ar **asesiad incwm**, yr unig elfen o gyllid myfyrwyr y byddwch yn gymwys i wneud cais amdano fydd y rhan o'r Benthyciad Cynhaliaeth na asesir yn ôl incwm, a bydd hyn ar raddfa gwtogedig.

Os ydych yn cael neu os ydych yn debygol o gael bwrsariaeth **nad yw'n cael ei seilio ar asesiad incwm**, NI fyddwch yn gymwys i gael unrhyw gyllid arall i fyfyrwyr oni bai eich bod yn fyfyriwr ar secondiad sy'n astudio cwrs sy'n gysylltiedig ag iechyd ac os ydych wedi cael gwybod na allwch wneud cais am unrhyw fwrsariaeth, ar sail asesiad incwm neu beidio.

Rhaid i chi anfon cadarnhad o'r ffaith eich bod yn gymwys i gael bwrsariaeth GIG i'ch Awdurdod Lleol. Os nad oes gennych y dystiolaeth hon nawr, ni ddylech aros nes i chi ei chael cyn cyflwyno'ch cais am gyllid myfyrwyr. Dylech anfon y dystiolaeth hon i'ch ALI cyn gynted ag y byddwch yn ei chael.

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn gymwys i gael bwrsariaeth, dylech gysylltu ag Uned Grantiau Myfyrwyr Asiantaeth Bensiynau GIG ar (0845) 358 6655.

g Os ydych yn mynychu lleoliad yn ystod unrhyw dymor, dylech anfon llythyr atom gan eich prifysgol neu goleg i gadarnhau hyn.

e

Manylion lleoliad

h Os yw'ch lleoliad yn lleoliad di-dâl nas rhestrwyd, dim ond Benthyciad Cynhaliaeth ar gyfradd gwtogedig y bydd modd i chi ei hawlio.

adran 4

Adran 4 manylion cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r myfyriwr

Ni fydd angen i chi ddarparu manylion eich cyfrif banc os ydych yn gwneud cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu yn unig oherwydd bydd hwn yn cael ei dalu i'ch prifysgol neu goleg yn uniongyrchol, ac nid i chi.

adran 5

Adran 5 myfyrwyr dibynnol ac annibynnol

a3 Mae gofalu am rywun dan 18 oed yn golygu eich bod yn gofalu am blentyn ac mae'r plentyn yn byw gyda chi, beth bynnag fo'ch perthynas gyda'r plentyn.

e A fyddech gystal ag anfon tystysgrifau geni gwreiddiol y plentyn/plant a thystiolaeth eich bod yn gofalu am y plentyn, er enghraifft, tystiolaeth eich bod yn cael Budd-dal Plant neu Gredyd Treth Plant.

b **Ymbellhau anghymodlon**

Fel arfer, dim ond os nad ydych wedi cael cyswllt gyda'ch rhieni am o leiaf flwyddyn cyn dechrau'ch blwyddyn academaidd yr ystyrir eich bod wedi ymbellhau yn anghymodlon oddi wrthynt.

Ni fydd modd i chi honni eich bod wedi ymbellhau yn anghymodlon oddi wrthynt oherwydd:

- nad ydych ar delerau da gyda'ch rhieni;
- nad ydych yn byw gyda nhw;
- nad yw'ch rhieni yn dymuno rhoi manylion am eu hincwm; neu
- bod eich rhieni yn dewis peidio rhoi cymorth ariannol i chi.

Yng ngofal cyfreithiol Awdurdod Lleol

Os ydych wedi bod yng ngofal Awdurdod Lleol ar unrhyw adeg, ond rydych wedi bod yn ôl yng ngofal cyfreithiol eich rhieni ar unrhyw adeg ers hynny, ni ystyrir eich bod yn annibynnol

Ffurflen cais am fenthyciad

Rhif Yswiriant Gwladol

Os na fyddwch yn nodi eich Rhif Yswiriant Gwladol, ni fyddwch yn cael eich benthyciad(au) a bydd yn rhaid i chi dalu'ch ffioedd dysgu a'ch costau byw eich hun nes bydd y mater hwn yn cael ei ddatrys.

Nodir eich Rhif Yswiriant Gwladol:

• Ar eich cerdyn Rhif Yswiriant Gwladol.

• Ar slip cyflog.

• Ar ddogfen treth incwm megis P45 neu P60.

Os nad ydych erioed wedi cael Rhif Yswiriant Gwladol, dylech adael y blwch Rhif Yswiriant Gwladol yn wag. Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen i chi gymryd unrhyw gamau er mwyn cael Rhif Yswiriant Gwladol.

Benthyciad Cynhaliaeth

Telir y benthyciad hwn mewn rhandaliadau yn uniongyrchol i chi, a'i ddiben yw helpu i dalu eich costau byw personol trwy gydol y flwyddyn academaidd.

Benthyciad Ffioedd Dysgu

Telir y benthyciad hwn yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg ar ôl iddynt gadarnhau eich bod yn mynychu'r cwrs.

Gwneud cais am fenthyciad yn nes ymlaen neu newid y swm y gofynnwyd amdano

Gallwch wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd, ar yr amod eich bod yn gwneud hynny yn y cyfnod a ganiateir. Fel arfer, y cyfnod a ganiateir ar gyfer ymgeisio yw naw mis o ddechrau'ch blwyddyn academaidd.

I wneud cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu, neu os hoffech newid y swm y gofynnwyd amdano yn wreiddiol, gallwch lawrlwytho ffurflen Cais am Fenthyciad Cynhaliaeth neu Cais am Fenthyciad Ffioedd Dysgu trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar **0845 602 8845** a gofyn iddynt anfon un atoch.

Datganiadau

Os byddwch yn cael benthyciad, bydd contract cyfreithiol rwymol rhyngoch chi a Gweinidogion Cymru. Mae'r Ffurflen Gais am Fenthyciad, gan gynnwys y datganiadau, yn rhan annatod o'ch contract gyda Gweinidogion Cymru. Gellir gweld amodau ychwanegol y contract yn y Rheoliadau a wnaethpwyd dan adran 22 Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998, fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd, neu ddeddfwriaeth olynol.

adran
6

Adran 6 cwestiynau ariannol i fyfyrwyr

Incwm heb ei ennill

a Efallai y gofynnir i chi gadarnhau unrhyw incwm amcangyfrifedig yn nes ymlaen.

Os yw'ch incwm go iawn yn wahanol i'ch incwm amcangyfrifedig, byddwn yn ailasesu'ch hawl i gael cyllid myfyrwyr. Gallai hyn newid lefel y cymorth ariannol y byddwch yn ei gael.

Wrth gyfrifo'ch incwm trethadwy nas enillwyd, **ni** ddylech gynnwys:

- **enillion o waith amser llawn neu waith rhan-amser** megis gwaith yn ystod y gwyliau neu waith yr ydych yn ei wneud yn ystod y tymor;
- unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth neu daliadau grant yr ydych yn eu cael efallai;
- taliadau yr ydych yn eu cael gan eich rhieni dan gyfamod;
- taliadau cynhaliaeth yr ydych yn disgwyl eu cael am eich plant. Dylid cynnwys y taliadau cynhaliaeth hyn fel rhan o incwm eich plant yng nghwestiwn 6d;
- Bwrsariaethau Hyfforddiant Athrawon;
- cymorthdaliadau a delir gan y lluoedd arfog i filwyr wrth gefn neu bensiynau anabledd neu i'r methedig; neu
- ISAs.

Taliadau gan gyflogwr

b **Dim ond** os ydych yn cael eich rhyddhau o'ch cyflogaeth gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs y dylech nodi swm yma. Os mai dyma'ch sefyllfa, dim ond cyflog y byddwch yn ei gael gan y cyflogwr hwnnw am ddiwrnodau pan fyddwch yn mynychu'ch cwrs ac wedi cael eich rhyddhau o'ch cyflogaeth i wneud hynny, y dylech ei nodi. Gallai unrhyw enillion o gyflog a nodir yma effeithio ar eich hawl i gael cyllid myfyrwyr.

Ni ddylech nodi unrhyw swm yma os ydych yn fyfyriwr sy'n gweithio tra'r ydych yn astudio ond nad ydych wedi cael eich rhyddhau yn benodol gan eich cyflogwr i fynychu'ch cwrs.

Plant dibynnol

d Rhaid i chi gynnwys unrhyw incwm y mae'r plentyn yn ei gael o weithio, o log ar gynilion, o fuddsoddiadau a thaliadau cynhaliaeth yr ydych yn disgwyl eu cael ar gyfer eich plant fel rhan o'u hincwm **nhw** yn y cwestiwn hwn.

e Rhaid i chi anfon tystysgrif(au) geni wreiddiol eich plentyn/plant er mwyn cadarnhau eu dyddiad(au) geni cyn y gellir eu hystyried wrth asesu'r hyn y bydd gennych yr hawl i'w gael. Os ydych wedi darparu'r rhain gyda chais blaenorol am gymorth ariannol, ni fydd yn rhaid i chi eu darparu eto.

adran 7

Adran 7 lwfans dysgu i rieni, grant oedolion dibynnol a grant gofal plant

d Mae lwfansau maethu neu letya yn daliadau rheolaidd y bydd gofalwyr maeth yn eu cael i dalu'r costau o gadw plentyn.

e Yr ymrwymiadau ariannol i'w cynnwys fyddai polisïau yswiriant megis yswiriant meddygol neu yswiriant y cartref, premiymau yswiriant bywyd, ad-daliadau morgais neu daliadau cynhaliaeth ar gyfer dibynnydd. Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o unrhyw ymrwymiadau y byddwch yn eu datgan.

f Os byddwch yn gwneud cais am Grant Gofal Plant neu os byddwch yn dewis cael Grant Gofal Plant yn hytrach nag elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, anfonir ffurflen bellach atoch i'w llenwi, ynghyd â llyfryn gwybodaeth sy'n amlinellu swm y Grant Gofal Plant sydd ar gael. Gallwch gael gwybodaeth ynghylch pob agwedd ar Gredyd Treth Gwaith gan Linell Gymorth Cyllid a Thollau EM (CATHEM) ar 0845 300 3900.

adran 8

Adran 8 am eich teulu

Pa aelodau o'r teulu sy'n cyfrif at ddibenion asesu incwm?

Myfyrwyr dibynnol

Os ydych yn fyfyriwr dibynnol, bydd yr aelodau canlynol yn y teulu yn cyfrif:

- Eich rhieni naturiol neu fabwysiadol, os yw'r ddau ohonynt yn byw gyda chi.
- Eich rhiant a'u partner, os oes un ganddynt.

Os gwnaethoch gychwyn ar gwrs Addysg Uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2005**, bydd partner eich rhiant yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

- Eich llysfam neu'ch llystad.
- Partner eich rhiant o'r rhyw arall **neu** o'r un rhyw os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Os gwnaethoch gychwyn ar gwrs Addysg Uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2004 ond cyn 1 Medi 2005**, bydd partner eich rhiant yn cael eu diffinio fel a ganlyn:

- Eich llysfam neu'ch llystad; neu
- Bartner eich rhiant o'r rhyw arall os ydynt yn cyd-fyw fel pe baent yn briod.

Myfyrwyr annibynnol

Os ydych yn fyfyriwr annibynnol, dim ond eich partner, os oes un gennych, fydd yn cyfrif.

Os gwnaethoch gychwyn ar gwrs Addysg Uwch **ar neu ar ôl 1 Medi 2005**, bydd partner yn cael eu diffinio fel:

- Eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil.
- Eich partner o'r rhyw arall neu o'r un rhyw, os ydych yn 25 oed neu'n hŷn ac os ydych yn byw gyda'ch partner fel pe baech yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

Os nad oes gennych bartner yn unol â'r diffiniad uchod, dim ond eich incwm chi y byddwn yn ei asesu.

c Os yw'ch rhieni wedi ysgaru neu wahanu, neu os ydych wedi bod mewn partneriaeth sifil a ddiddymwyd, dylech anfon copi o'r archddyfarniad absoliwt, y gorchymyn diddymu neu lythyr gan eu cyfreithiwr sy'n cadarnhau eu statws.

Datganiad y myfyriwr

Os na allwch lofnodi'r ffurflen, rhaid i'ch Pŵer Atwrnai ei llofnodi ar eich rhan. Rhaid anfon llythyr y Pŵer Atwrnai gyda'r cais hwn cyn y derbynnir llofnod gan y Pŵer Atwrnai hwnnw/honno.

Amgylchiadau yn newid

Rhaid i chi hysbysu'ch ALl o unrhyw newid i'ch amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawl i gael cymorth ariannol.

Y newidiadau mwyaf cyffredin i amgylchiadau myfyrwyr fyddai:

- os ydych yn absennol o'r cwrs am dros 60 diwrnod oherwydd salwch;
- os ydych yn absennol am unrhyw reswm arall;
- os byddwch yn gadael eich cwrs, yn rhoi'r gorau i'ch cwrs neu'n cael eich gwahardd o'ch cwrs;
- os byddwch yn stopio mynychu'r cwrs ac os nad ydych yn bwriadu, neu os na chaniateir i chi ddychwelyd am weddill y flwyddyn academaidd;
- os byddwch yn trosglwyddo i gwrs gwahanol yn yr un brifysgol neu goleg neu mewn prifysgol neu goleg gwahanol;
- os byddwch yn trosglwyddo o gwrs amser llawn i gwrs rhan-amser;
- os byddwch yn ailadrodd rhan o flwyddyn eich cwrs, neu flwyddyn gyfan o'ch cwrs; neu
- os bydd dyddiad dechrau neu orffen eich cwrs yn newid.

Gallwch lawrlwytho ffurflen 'Newid mewn Amgylchiadau' CO1 trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru gan ofyn iddynt anfon un atoch.

Gallwch weld cyfeiriad eich ALl yn y rhestr cyswllt sydd ar gael ar-lein trwy droi at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**.

Gwybodaeth ynghylch rhannu data at ddibenion bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig dyfarniadau ariannol megis bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i'w myfyrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r dyfarniadau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwystra a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaeth neu ysgoloriaeth – "dibenion gweinyddu bwrsariaethau"), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru, eich Awdurdod Lleol neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am yr hawl i droi at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud â'r cais hwn am gyllid myfyrwyr (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda nhw, oni bai eich bod yn nodi **nad ydych** yn dymuno i ni wneud hynny trwy dicio'r blwch yn y datganiad. Os na fyddwch yn rhoi eich caniatâd i ni rannu'r wybodaeth hon, efallai y bydd oedi cyn y telir unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth i chi y bydd gennych yr hawl i'w chael.

Dylech gysylltu â'r brifysgol neu'r coleg os bydd angen i chi gael unrhyw wybodaeth bellach am eu bwrsariaethau a'u hysgoloriaethau.

adran
9

Adran 9 manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2007-08 i unigolyn(unigolion) a enwir yn Adran 8

Beth os bydd fy incwm yn llai yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10 nag yr oedd yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08?

Os ydych yn credu y bydd incwm eich cartref (cyn treth) ar gyfer blwyddyn ariannol 2009-10 o leiaf 15% yn llai nag yr oedd yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08, dylech lenwi'r adran hon o hyd.

O fis Ebrill 2009, efallai y bydd modd cyfrifo'r asesiadau ariannol gan ddefnyddio cyfanswm yr incwm disgwyliedig ar gyfer eich cartref yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10 – 'asesiad incwm blwyddyn gyfredol'.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon cyn mis Ebrill 2009, dylech nodi manylion byr am y gostyngiad disgwyliedig o ran incwm ar ddarn o bapur ar wahân a'i gynnwys gyda'r cais hwn. Yna, byddwn yn cysylltu â chi i gael gwybodaeth bellach pan fyddwn yn gallu asesu amgylchiadau ariannol eich cartref yn llawn.

Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon ar ôl mis Ebrill 2009, gallwch lawrlwytho ffurflen 'Asesiad Incwm y Flwyddyn Gyfredol' trwy droi at www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk a'i dychwelyd gyda'r cais hwn, neu gysylltu â Chanolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 gan ofyn iddynt anfon un atoch. Bydd angen i holl aelodau'r teulu sy'n cyfrif at ddibenion asesu incwm lenwi ffurflen 'Asesiad Incwm y Flwyddyn Gyfredol' er mwyn i ni allu asesu amgylchiadau ariannol eich cartref yn llawn.

b Os ydych eisoes wedi darparu gwybodaeth am eich incwm ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-07, ac os oedd eich incwm yn £15,000 neu'n llai yn ystod y flwyddyn honno, ac yn ystod blwyddyn ariannol 2007-08 hefyd, dim ond yn Adran 9 y bydd angen i chi ateb y cwestiwn hwn. Ni fydd angen i chi ateb unrhyw rai o'r cwestiynau eraill yn yr adran hon neu ddarparu tystiolaeth o'ch incwm. Fodd bynnag, dylech gadw'r wybodaeth am eich incwm a thystiolaeth gynorthwyol (megis ffurflenni P60) ar gyfer blwyddyn ariannol 2007-08, oherwydd efallai y gofynnir i chi ddarparu'r rhain yn nes ymlaen.

Incwm

Cyflogaeth

c2 Mae incwm trethadwy gros yn golygu incwm o gyflog gan gynnwys goramser, taliadau bonws a chomisiwn cyn didyniadau. Yn ogystal, dylech gynnwys unrhyw incwm a gawsoch trwy weithio mewn gwlad dramor ac unrhyw incwm arall yr ydych yn ei gael gan wlad dramor na chaiff ei gynnwys yn nhrefniadau treth y DU, yn ogystal ag unrhyw fudd-daliadau a gafwyd.

Ni ddylech gynnwys unrhyw un o'r canlynol fel rhan o'ch incwm trethadwy gros:
- Unrhyw ostyngiad personol.
- Taliadau dan gyfamod.
- Incwm di-dreth.

c3 Mae buddion ar ffurf rhoddion trethadwy yn golygu buddion ac eithrio arian y byddwch yn ei gael trwy'ch cyflogaeth, ac fe allent gynnwys car cwmni, prydau, llety neu yswiriant iechyd preifat. Dylid cynnwys buddion y bydd angen i chi dalu treth ar eu cyfer yn unig.

c4 Dylech nodi'r manylion a ddangosir ar eich ffurflen hunanasesu ar gyfer eich blwyddyn fasnachu sy'n dod i ben yn ystod y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2007 a 5 Ebrill 2008.

Os na allwch nodi'r union swm, dylech roi amcangyfrif gan ysgrifennu "(A)" wrth ymyl y swm ar y ffurflen

c5 Os ydych eisoes wedi cynnwys eich incwm fel cyfarwyddwr cwmni yng nghwestiynau c2 neu c4, ni ddylech ei nodi eto fan hyn.

adran
9

Adran 9 manylion ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2007-08 i unigolyn(unigolion) a enwir yn Adran 8

Pensiynau

c7 Os ydych yn **talu** unrhyw gyfran o bensiwn i gyn bartner o ganlyniad i orchymyn a wnaethpwyd dan Ddeddf Achosion Priodasol 1973 neu Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, **ni ddylech** gynnwys y swm hwn fel rhan o'ch incwm pensiwn.

Os **ydych yn cael** cyfran o bensiwn cyn bartner o ganlyniad i orchymyn a wnaethpwyd dan Ddeddf Achosion Priodasol 1973 neu Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004, **rhaid** i chi gynnwys y swm hwn fel rhan o'ch incwm pensiwn.

Cynilion a buddsoddiadau

c10 Nodwch y llog yr ydych yn ei gael cyn treth. Ni ddylech gynnwys llog yr ydych yn ei gael gan ISAs.

Didyniadau

d1 Ni ddylech gynnwys unrhyw daliadau rheolaidd yr ydych yn eu gwneud tuag at bensiwn ymddeol a ddarperir gan eich cyflogwr.

d3 Mae hyn yn cynnwys unrhyw beth y gallwch hawlio gostyngiad yn y dreth arno oherwydd ei fod yn gost angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth, er enghraifft tanysgrifiadau i sefydliadau proffesiynol, cost gwisgoedd a chostau teithio. Os ydych yn weinidog yr efengyl, dylech gynnwys didyniadau a wnaethpwyd o'ch incwm at ddibenion treth yma.

adran
10

Adran 10 dibynyddion unigolyn(unigolion) a enwyd yn Adran 8

Dyddiadau cychwyn a gorffen blynyddoedd academaidd

Dylech nodi incwm y plentyn dibynnol ar gyfer y flwyddyn academaidd. Pennir y flwyddyn academaidd gan yr adeg pan fydd y myfyriwr yn dechrau astudio.

Mae'r myfyriwr yn dechrau astudio rhwng:	**Blwyddyn Academaidd**
1 Awst 2009 a 31 Rhagfyr 2009 yn gynhwysol	1 Medi 2009 a 31 Awst 2010
1 Ionawr 2010 a 31 Mawrth 2010 yn gynhwysol	1 Ionawr 2010 a 31 Rhagfyr 2010
1 Ebrill 2010 a 30 Mehefin 2010 yn gynhwysol	1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011
1 Gorffennaf 2010 a 31 Gorffennaf 2010 yn gynhwysol	1 Gorffennaf 2010 a 31 Mehefin 2011

a Mae angen nodi incwm y plentyn dibynnol er mwyn asesu cymhwystra ar gyfer y didyniadau wrth gyfrifo incwm y cartref ar gyfer pob plentyn sy'n ddibynnol yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar y myfyriwr, gŵr, gwraig neu bartner y myfyriwr neu rieni neu lys-rieni y myfyriwr. Gallwch weld rhagor o wybodaeth am y ffordd o gyfrifo gwybodaeth am y cartref trwy droi at y llyfryn 'Canllaw i'r cymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch yn 2009/10'.

Ni ddylech gynnwys incwm gan ffynonellau megis Ymddiriedolaeth Blant y Llywodraeth, Budd-dal Plant y Wladwriaeth neu symiau ariannol bach gan ffynonellau eraill wrth nodi incwm plentyn dibynnol.

Datganiadau i unrhyw unigolyn(unigolion) a enwir yn Adran 8

Os na fydd unrhyw unigolyn a enwir yn Adran 8 yn gallu llofnodi'r ffurflen, rhaid i'w Pŵer Atwrnai ei llofnodi ar eu rhan. Rhaid anfon y llythyr Pŵer Atwrnai gyda'r cais cyn y derbynnir llofnod y Pŵer Atwrnai hwnnw.

Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi hysbysu'r ALl o unrhyw newid i'ch amgylchiadau, a allai effeithio ar hawl y myfyriwr i gael cymorth ariannol.

Y newid mwyaf cyffredin mewn amgylchiadau fyddai:

• os byddai incwm eich cartref yn newid; neu

• os byddai'ch statws priodasol yn newid.

Gwybodaeth ynghylch rhannu data at ddibenion bwrsariaethau ac ysgoloriaethau

Bydd prifysgolion a cholegau yn cynnig dyfarniadau ariannol megis bwrsariaethau ac ysgoloriaethau i'w myfyrwyr. Er mwyn eu helpu i weinyddu'r dyfarniadau hyn (h.y. er mwyn pennu cymhwystra a'r hawl i'w cael, a phan fo hynny'n berthnasol, er mwyn talu bwrsariaethau neu ysgoloriaethau – "dibenion gweinyddu bwrsariaethau"), byddant yn gofyn i Weinidogion Cymru, yr Awdurdod Lleol neu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr am yr hawl i droi at wybodaeth y byddwch yn ei darparu sy'n ymwneud â'r cais hwn am gyllid myfyrwyr (yn y ffurflen hon neu yn y dyfodol).

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth berthnasol gyda nhw, oni bai eich bod yn nodi **nad ydych** yn dymuno i ni wneud hynny trwy dicio'r blwch yn y datganiad. Os na fyddwch yn rhoi eich caniatâd i ni rannu'r wybodaeth hon, efallai y bydd oedi cyn y telir unrhyw fwrsariaeth neu ysgoloriaeth i chi y bydd gennych yr hawl i'w chael.

Deddf Diogelu Data 1998

Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) yn Rheolydd Data dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a nodir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth gan gynnwys pennu cymhwystra i gael cyllid myfyrwyr, asesu uchafswm y cymorth ariannol sydd ar gael, talu taliadau cyllid myfyrwyr a darganfod ac atal twyll, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw rai o'r dibenion hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn Rheolydd Data ar y cyd ar gyfer eich gwybodaeth.

Os bydd gwybodaeth anghywir neu wallus yn cael ei darparu, ac os bydd twyll yn cael ei ddarganfod, gellir trosglwyddo manylion i asiantaethau atal twyll er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian.

Efallai y byddwn yn rhannu'r wybodaeth y gwnaethoch ei rhoi i ni gyda sefydliadau eraill gan gynnwys yr Awdurdod Lleol (ALl), Gweinidogion Cymru, cyrff Llywodraethol eraill a'r brifysgol neu'r coleg at y dibenion hyn. Yn ogystal, efallai y byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch chi gan sefydliadau eraill. Os felly, bydd hyn at y dibenion a ddisgrifiwyd yn unig ac yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ei wneud

Am wybodaeth fanylach ynghylch y rhai y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth gyda nhw ac i ba ddiben, trowch at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/diogeludata**.